WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 644A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Richard Harries, Dave Thomas, Matthew Coe a Carol Moseley, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau ariannol, ac ar hyn o bryd mae'n wynebu cryn dipyn o her o hyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2012-13 | 11 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal cyfeiriad teithio cadarnhaol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan sy'n parhau i aeddfedu a chydnabyddiaeth o'r angen i atgyfnerthu rhai agweddau ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol | 13 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi ymagwedd ragweithiol wedi'i rheoli'n dda at ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ond hefyd gyfleoedd i wneud defnydd gwell o adnoddau mewn meysydd penodol | 20 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 23 |
| Ffi archwilio | 24 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**2.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**3.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

**4.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**5.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei fframwaith sicrwydd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd o feysydd penodol lle darperir gwasanaethau.

**6.** Mae'r gwaith hwn wedi peri i mi ddod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal cyfeiriad teithio cadarnhaol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan sy'n parhau i aeddfedu. Yn gyffredinol, mae trefniadau rheoli ariannol da ar waith ac mae ymagwedd ragweithiol at ymgysylltu â rhanddeiliaid yn amlwg. Mae angen atgyfnerthu rhai agweddau ar reolaeth fewnol a sicrwydd bwrdd ymhellach, ond prif her y Bwrdd Iechyd am y flwyddyn i ddod yw byw o fewn terfyn ei adnoddau a datblygu cynlluniau gweithlu hirdymor cynaliadwy a fydd yn helpu i gyflawni'r newidiadau trawsnewidiol cymhleth sydd eu hangen mewn gwasanaethau.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**7.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2013. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd ym mis Ionawr 2013 a rhoddir copi i bob aelod o'r BILI. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk.

**8.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb fel mater o drefn i'r materion a godir yn fy adroddiadau drwy gynlluniau gweithredu ffurfiol. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn fel rhan o'm gwaith archwilio parhaus.

**9.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**10.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Chwefror 2012 a mis Tachwedd 2012.

**11.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

**a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

**b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;

**c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**12.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**13.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**14.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**15.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**16.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**17.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**18.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**19.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**20.** Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft cyn y terfyn amser, sef 4 Mai 2012. Cafwyd gennym fod y wybodaeth a roddwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac

yn glir. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.

**21.** Mae fy nhîm wedi parhau i weithio'n agos â staff cyllid y Bwrdd Iechyd drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau y caiff problemau posibl eu nodi a'u datrys yn brydlon, gan gynnwys cynnal trafodaethau cynnar ar ddulliau a thriniaethau arfaethedig ar gyfer meysydd goddrychol o'r cyfrifon. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, gwnaethom hefyd gynnal sesiwn dysgu ôl-brosiect ar y cyd a fydd yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio ar y cyd ar gyfer 2012-13.

**22.** O dan ISA 260, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 1 Mehefin 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Balansau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Gan fod y Bwrdd Iechyd yn rhannu risgiau ariannol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru â holl fyrddau iechyd lleol Cymru, mae angen sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o'r archwiliad o'r Pwyllgor hwnnw yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol pob bwrdd iechyd lleol. Cafwyd cadarnhad gan y tîm a fu wrthi'n archwilio Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru nad oedd unrhyw faterion wedi codi o'i archwiliad o'r Pwyllgor a oedd yn effeithio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. |
| Datgeliadau manwl yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth | Darparodd Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru ganllawiau lefel uchel ar ofynion newydd ar gyfer datgelu cyflog uwch gyflogeion yn sgil adolygiad Hutton o Gyflogau Teg. Nid oedd y canllawiau'n ddigon manwl i sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru'n eu cymhwyso'n gyson. Gofynnodd y Bwrdd Iechyd am ganllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar agweddau penodol ar y broses gan gymhwyso'r canllawiau hyn yn rhesymol i'w gyfrifiadau ei hun yn 2011-12.<br>Ar gyfer 2012-13 mae Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu canllawiau manwl a fydd yn golygu y caiff y datgeliadau hyn eu cyfrifo'n fwy cyson. |
| Her ariannol yn 2012-13 | Ar gyfer 2012-13, rhagwelodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg ariannu cychwynnol o £45.1 miliwn. Golygai'r diffyg hwn bod angen cyflawni rhaglen gwella costau arall, gan gyflwyno her ariannol a gweithredol sylweddol arall i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y dyfodol. |

**23.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2012 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**24.** Mae fy archwiliad ar wahân o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol hefyd wedi'i gwblhau. Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd i'r Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ym mis Medi 2012 a rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol hynny ar 10 Hydref 2012.

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**25.** Wrth ystyried yr amgylchedd rheolaeth fewnol, rwy'n asesu trefniadau sy'n cynnwys rheolaethau lefel uchel dros y prif systemau cyfrifyddu a rheolaeth gyllidebol, gwaith a rôl y gwasanaeth archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n chwarae rhan amlwg yn adolygu ac yn cryfhau'r amgylchedd rheolaeth fewnol.

**26.** Cafwyd gennyf fod y rheolaethau'n gweithio mor effeithiol ag y bwriadwyd ac felly roedd modd dibynnu arnynt wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**27.** Ar y cyfan, roedd gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol y GIG yng Nghymru, ac yn ategu barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2012. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio i gydymffurfio'n llawn â'r safonau diwygiedig.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad

**28.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd rhai mân-feysydd i'w gwella yn ystod yr archwiliad a gwnaed argymhellion i'r rheolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

**29.** Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

## Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2011-12, ar ôl iddo gyhoeddi arbedion o £36 miliwn a chael £17 miliwn o arian cylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

**30.** Yn gyffredinol cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol yn 2011-12. Cyflawnwyd y targedau hyn yn bennaf o ganlyniad i'r arbedion a nodwyd, camau i reoli costau a thargedau gostwng costau o tua £36 miliwn. Hefyd, cafodd y Bwrdd Iechyd £17 miliwn o arian cylchol ychwanegol ym mis 7 gan Lywodraeth Cymru.

**31.** Yn wahanol i rai o gyrff eraill y GIG yng Nghymru, ni ofynnodd y Bwrdd Iechyd am 'froceriaeth' hwyr o arian o'r flwyddyn ganlynol yn ystod 2011-12 ac ni chafodd froceriaeth o'r fath. Ceir sylwadau ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn 2012-13 yn yr adran ganlynol.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**32.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol;
- gwaith defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ansawdd data ac adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes;
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth ymdrin â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar theatrau llawdriniaeth.

**33.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae'n wynebu pwysau sylweddol o ran costau ariannol, ac ar hyn o bryd mae'n wynebu cryn dipyn o her o hyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2012-13

**34.** Mae gwaith rhagfynegi, pennu cyllideb a monitro blynyddol yn gadarn ar draws y sefydliad ac mae ansawdd adroddiadau ac adborth gan ddeiliaid y gyllideb yn dda. Ceir hefyd dystiolaeth amlwg o brosesau monitro cyllidebau a chamau gweithredu, yn ogystal â threfniadau adrodd da i'r Bwrdd. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag eraill i rannu arfer da, ond gall pob un o gyrff y GIG yng Nghymru wneud mwy i feincnodi gwybodaeth ariannol. Caiff adnoddau cyfalaf eu rheoli'n dda ond mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu cyfyngiadau cyfalaf sylweddol yn y dyfodol, yn arbennig ar gyfer cyfalaf dewisol, a fydd yn effeithio ar ansawdd a diogelwch.

**35.** Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o reoli pwysau o ran costau. Mae wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb a chyflawni ei holl dargedau ariannol bob blwyddyn, ers ei sefydlu ym mis Hydref 2009. Fodd bynnag, wrth edrych i'r dyfodol mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol o ran darparu ei wasanaethau. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn wynebu pwysau ychwanegol sylweddol ar wasanaethau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y cleifion sy'n cyrraedd yr ysbytai. Ni ellid bod wedi rhagweld y cynnydd hwn mewn galw, yn arbennig o ran

gwasanaethau gofal heb ei drefnu, pan oedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu ei gyllideb ariannol wreiddiol ar gyfer 2012-13.

**36.** Yn wreiddiol, nododd y Bwrdd Iechyd fwlch ariannu o £45.1 miliwn i'w reoli yng nghyllideb 2012-13, a ddiwygiwyd yn ddiweddarach i £38.6 miliwn wrth i bwysau o ran costau gael eu rheoli yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn. Lluniodd rheolwyr a chlinigwyr Gynlluniau Gwella Costau cyfwerth â £24.1 miliwn, a adawodd fwlch ariannu o £14.5 miliwn heb unrhyw awgrym sut y câi ei lenwi.

**37.** Ar ddiwedd mis Hydref 2012, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg 'mwyaf tebygol' ar ddiwedd y flwyddyn o £13.5 miliwn ac y gallai dod o hyd i arbedion pellach er mwyn cau'r bwlch hwn yn llawn effeithio'n andwyol ar y gwaith o ddarparu gwasanethau, eu hansawdd a'u diogelwch. Y diffyg ar y pwynt hwnnw oedd £10.8 miliwn, a oedd yn awgrymu mai dim ond £2.7 miliwn a gâi ei orwario yn ystod y pum mis canlynol. Roedd hyn yn ymddangos yn optimistaidd o gofio'r patrymau gwario hyd hynny yn ystod y flwyddyn.

**38.** Nid yw'r heriau ariannol sylweddol wedi'u helpu gan y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi tangyflawni yn erbyn targedau'r Cynlluniau Gwella Costau ar gyfer 2011-12 a 2012-13. Yn 2011-12, er y cyflawnwyd targedau ariannol, dim ond 64 y cant o'r targed o £16.6 miliwn a gyflawnodd y Cynlluniau hyn ar gyfer y flwyddyn honno. Yn 2012-13, bwriad y Bwrdd Iechyd oedd sicrhau £12.5 miliwn (52 y cant) o gyfanswm y Cynlluniau Gwella Costau, sef £24.1 miliwn, yn ystod pum mis olaf y flwyddyn. Ar ddiwedd mis Hydref 2012, roedd y Cynlluniau eisoes £1.6 miliwn yn llai na'r targed ar gyfer y flwyddyn hyd hynny, sef £11.7 miliwn, a byddai angen perfformiad gwell o lawer er mwyn i'r Bwrdd Iechyd barhau o fewn y diffyg a ragwelwyd ganddo.

**39.** Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant arian pellach ar gyfer cyrff y GIG a bydd y Bwrdd Iechyd yn cael £10 miliwn o arian ychwanegol. Mae hyn, i bob pwrpas, yn lleihau'r diffyg rhagweledig i £3.5 miliwn sydd o bosibl yn swm mwy ymarferol nag yn flaenorol ac mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn rhagweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar gyfer diwedd 2012-13. Fodd bynnag, mae cau'r bwlch ariannu sy'n weddill, sef £3.5 miliwn, yn her fawr o hyd a bydd angen ei rheoli'n ofalus. Os bydd y tueddiadau a welwyd yn ystod y flwyddyn o ran gwariant ac arbedion yn parhau, ac na chyflawnir arbedion y Cynlluniau Gwella Costau, yna ni fydd y Bwrdd Iechyd yn mantoli ei gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal cyfeiriad teithio cadarnhaol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan sy'n parhau i aeddfedu a chydnabyddiaeth o'r angen i atgyfnerthu rhai agweddau ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol

### Mae'r amgylchedd rheolaeth fewnol wedi parhau i aeddfedu i gefnogi sicrwydd Bwrdd effeithiol ac er bod y trefniadau yn ymddangos yn gadarn ar y cyfan, mae angen datblygu rhai agweddau ymhellach

**40.** Cafwyd cyfeiriad teithio cadarnhaol ers ein hadolygiadau ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig yn 2010 a 2011, ac mae'r trefniadau sicrwydd yn aeddfedu. Yn arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau adolygiad o strwythur ei is-bwyllgorau, ac ar hyn o bryd mae'n cwblhau'r gwaith o ddiweddaru a dogfennu ei fframweithiau sicrwydd ac ansawdd er mwyn rhoi mwy o eglurder a thryloywder. Mae cyfrifoldebau gweithredol am berfformiad a llywodraethu hefyd wedi cael eu hailddiffinio er mwyn sicrhau atebolrwydd cliriach ac mae trefniadau rheoli risg wedi cael eu hymgorffori i raddau mwy helaeth.

**41.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddulliau o nodi risgiau a rhwystrau i gyflawni ei amcanion strategol, a ategir gan drefniadau sy'n hyrwyddo cysondeb o ran asesu a sgorio risg ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Grŵp Adolygu Rheoli Risg rôl allweddol yn hyn o beth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth ac ardal. Caiff risgiau o ran cyfarwyddiaethau ac ardaloedd sy'n sgorio 20 neu fwy eu cynnwys mewn adolygiadau rheoli perfformiad misol, a chaiff y gofrestr risg gorfforaethol, sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**42.** Mae trefniadau ar gyfer olrhain 'Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru'[1], fel agwedd allweddol ar sicrwydd, ar waith hefyd. Mae dull strwythuredig o adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gwella cysylltiedig wedi'i sefydlu, ac mae prosesau monitro yn ystod y flwyddyn a threfniadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd, ar waith bellach. Mae proses dreigl o ddilysu cynnydd ar y safonau yn ôl cyfarwyddiaeth ac ardal wedi'i chyflwyno hefyd.

**43.** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i chwarae rôl allweddol o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ei drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac o ran y datganiadau datgelu sy'n ffrydio o'r prosesau hyn, yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran rhoi sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch, ac mae'r ddau bwyllgor wedi dogfennu cynlluniau gwaith a chofnodion gweithredu.

[1] Mae *Doing Well, Doing Better: Standards for Health Services in Wales* yn pennu fframwaith safonau cyffredin Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

**44.** At hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati mewn ffordd ystyriol i fodloni gofynion llawlyfr newydd y Pwyllgor Archwilio, a mabwysiadu'r llawlyfr hwnnw, a roddwyd i GIG Cymru ym mis Mai 2012. Cynhaliwyd sesiwn datblygu ar gyfer y Bwrdd ar 4 Hydref i helpu aelodau'r bwrdd i ystyried trefniadau llywodraethu yng nghyd-destun y Llawlyfr newydd. Ar ôl diweddaru ei fframweithiau sicrwydd ac ansawdd, sydd i'w cwblhau ym mis Rhagfyr 2012, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio profi effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol, fel sy'n ofynnol gan lawlyfr diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a'r egwyddorion sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai'r gwaith hwn brofi pa mor rhyng-weithredol yw'r pwyllgorau a'r sicrwydd a roddir i'r Bwrdd.

**45.** Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y Datganiad) yn 2011-12, gan ddisodli'r Datganiad am Reolaeth Fewnol blaenorol. Roedd y Datganiad yn crynhoi ymagwedd y Bwrdd Iechyd at lywodraethu corfforaethol a chlinigol, ei weithdrefnau rheoli risg a'i reolaethau lliniaru. Yn yr un modd â sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ei ddull o baratoi datganiadau llywodraethu blynyddol yn y dyfodol. Mae'r meysydd allweddol y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd weithredu arnynt yn cynnwys gwella cysondeb datganiadau llywodraethu cyfarwyddiaethau ac ardaloedd sy'n ategu'r Datganiad, a dwyn ynghyd y meysydd amrywiol o sicrwydd yn ystod y flwyddyn mewn ffordd fwy cyson.

**46.** Yn ogystal â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lluniodd y Bwrdd Iechyd ddatganiad ansawdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 2011-12, cyn y gofyniad i wneud hynny o 2012-13. Mae mabwysiadu datganiad ansawdd ar gam cynnar yn arwydd bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ychwanegu at y sicrwydd sydd eisoes ar waith. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig un o gyrff y GIG yng Nghymru i ddwyn ymlaen y broses o lunio ei ddatganiad ansawdd blynyddol.

**47.** Rhyw dair blynedd ar ôl sefydlu'r sefydliad newydd, mae strwythurau cyfarwyddiaeth ac ardal wedi'u hymgorffori ac mae'r seilwaith rhwydwaith clinigol yn datblygu'n dda. Mae strwythurau a threfniadau llywodraethu gweithredol wedi'u sefydlu, er bod aeddfedrwydd y trefniadau hyn yn amrywio rhywfaint o hyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, fel rhan o'r trefniadau goruchwylio llywodraethu, mae timau cyfarwyddiaeth ac ardal yn rhoi'r diweddaraf ar lywodraethu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chaiff ffocws cynyddol ar ganlyniadau ei gynnwys mewn adolygiadau rheoli perfformiad misol a arweinir gan swyddogion gweithredol.

**48.** Ceir swyddogaeth archwilio mewnol gadarn, gydag asesiadau canol blwyddyn o lywodraethu sefydliadol a rhaglen dreigl o adolygiadau llywodraethu fesul cyfarwyddiaeth ac ardal yn ychwanegu at y rheolaethau mewnol. Mae prosesau ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth risg uchel, fel iechyd a diogelwch, iechyd meddwl a chydraddoldebau, er bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio o hyd i ddatblygu sicrwydd ei fod yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio.

**49.** Mae ymrwymiad o'r newydd i'r rhaglen archwilio clinigol genedlaethol hefyd yn amlwg a rhoddir mwy o ystyriaeth hefyd i'r cynllun archwilio clinigol drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Er ei bod yn well o lawer ers 2011, mae'r rhaglen archwilio clinigol yn parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol, gofal yn yr ysbyty a meysydd penodol o ddiddordeb lleol. Mae llai o dystiolaeth bod gweithgarwch archwilio clinigol yn gysylltiedig ag amcanion a risgiau strategol y Bwrdd Iechyd, neu ei fod yn ymdrin yn

gytbwys â holl weithgareddau'r Bwrdd Iechyd. Fel y cyfryw, mae lle i atgyfnerthu’r rôl y mae angen i'r trefniadau archwilio clinigol ei chwarae o ran cefnogi fframwaith sicrwydd y bwrdd.

**50.** Ceir tystiolaeth bod dadansoddiad o achosion craidd yn cael ei gynnal mewn ymateb i ddigwyddiadau difrifol. Mae proses systematig o adolygu marwolaethau hefyd wedi'i rhoi ar waith (ynghyd ag adroddiadau 'Never Events') ac mae'r Bwrdd wedi craffu ar gydymffurfiaeth â'r adolygiadau hyn. Mae rhai meysydd i'r Bwrdd Iechyd eu gwella ymhellach, sy'n cynnwys profi'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo pryderon difrifol i lefel y Bwrdd, yn ogystal â gwella'r ymateb i gwynion a digwyddiadau a dysgu oddi wrthynt. Mae cyfle hefyd i lunio cysylltiadau gwell rhwng gwaith dadansoddi cwynion a digwyddiadau, a'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni ar brofiad y claf.

**51.** Yn olaf, er bod fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys meysydd sicrwydd allweddol a nodir yn llawlyfr y Pwyllgor Archwilio, gellid atgyfnerthu trefniadau ymhellach drwy ddatblygu 'llinyn aur' sy'n cysylltu meysydd sicrwydd yn fwy amlwg ag amcanion a risgiau'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i gyflawni ei amcanion strategol drwy newid trawsnewidiol a rhaglen wella

**52.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i ddatblygu ei strategaeth gwasanaethau clinigol, a gweithio arni, drwy gynllunio gwasanaethau ar sail llwybrau. Mae Rhaglen Gwella Darpariaeth, a ategir gan fethodoleg 'Rheoli Rhaglen Lwyddiannus', hefyd wedi'i sefydlu, gyda'r nod o ddwyn mentrau gwella ynghyd drwy ddull thematig clir er mwyn helpu i gyflawni amcanion strategol. Mae deg ffrwd o raglenni, yn cynnwys:

- atgyfnerthu'r dull 'comisiynu' ac iechyd y cyhoedd er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth ehangach;
- datblygu dealltwriaeth well o adnoddau gwasanaethau a'r galw amdanynt;
- gwneud cynnydd pellach o ran uno gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am adnoddau a gwybodaeth am y gweithlu er mwyn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau gwell.

**53.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried hefyd y Cynllun Sicrhau Ansawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012 wrth sefydlu 'Grŵp Gwyddoniaeth Arloesi, Cefnogi a Gwella'. Nod y grŵp yw dwyn ynghyd fentrau gwella ansawdd presennol (fel *100 o Fywydau* a *thrawsnewid gofal*), darparu hyfforddiant ar fethodoleg gwella a datblygu arweinyddiaeth ymhlith staff.

**54.** Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i fireinio ac aeddfedu ei ddulliau o weithredu i wireddu ei weledigaeth strategol, cyflawni ei amcanion a gwella ei wasanaethau drwy newid trawsnewidiol. Yr her yn y dyfodol fydd integreiddio ffrydiau'r ‘Rhaglen Gwella Darpariaeth’ yn llawn â'r strategaeth gwasanaethau clinigol.

## Mae gwybodaeth reoli wedi cael budd o gamau i'w datblygu'n sylweddol eleni ac mae'n parhau i ddatblygu a chryfhau, ond byddai dod â gwybodaeth arall at ei gilydd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd

**55.** Canolbwyntiodd fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig eleni ar ba un a all y Bwrdd a'i is-bwyllgorau gael gafael ar y wybodaeth reoli berthnasol i gynllunio, gwneud penderfyniadau ac ategu trefniadau craffu a sicrwydd effeithiol i'r Bwrdd. Nodais y canlynol:

- mae'r wybodaeth a roddir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cefnogi prosesau sicrwydd a phrosesau gwneud penderfyniadau ar y cyfan;
- mae gwybodaeth, ar y cyfan, yn gogwyddo mwy tuag at ofal eilaidd er bod y Bwrdd a'i aelodau yn cydnabod bod angen rhoi mwy o sylw i iechyd y boblogaeth a gofal sylfaenol a gofal cymunedol;
- mae ymrwymiad i ddeall ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn gyffredinol, er mai anaml yr adroddir ar hyn mewn un man a phrin yw'r adroddiadau a gyflwynir ar foddhad defnyddwyr, profiadau o lwybrau cleifion a gwersi a ddysgwyd o waith dadansoddi cwynion a digwyddiadau thematig;
- cyflwynir adroddiadau ar wahân ar berfformiad a chyllid ac mae hefyd le i ddod â'r rhain a themâu, megis goblygiadau i'r gweithlu, TG a'r ystad, at ei gilydd mewn adroddiadau mwy integredig;
- cyflwynir adroddiadau da ar berfformiad yn erbyn targedau, yn ogystal â chamau gwella a nodwyd a chyfrifoldebau prif reolwyr. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau ar effeithiolrwydd camau gwella a gymerwyd yr un mor gyson;
- ni chaiff cymariaethau o berfformiad (dros amser neu â sefydliadau eraill) eu cyflwyno bob amser, sy'n golygu ei bod yn anodd i'r Bwrdd ac is-bwyllgorau ddeall y cyfeiriad teithio neu berfformiad y Byrddau Iechyd o'i gymharu ag eraill.

**56.** Fel rhan o'm gwaith, cynhaliwyd arolwg o aelodau'r Bwrdd i gael eu barn ar y wybodaeth reoli a roddir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Roedd aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod y wybodaeth a roddir i'r Bwrdd yn ddigonol, ar y cyfan, i lywio penderfyniadau cynllunio a rhoi darlun clir o ba mor dda y mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn ei amcanion strategol ac o ran rheoli ei risgiau.

**57.** Yn gyffredinol, nid yw'r wybodaeth a gyflwynir wedi'i chrynhoi'n ormodol, sy'n helpu i ategu prosesau craffu a herio, a phrin yw'r pryderon a leisiwyd gan aeoldau'r Bwrdd ynghylch ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gyflwynir. Fodd bynnag:

- mae'r defnydd a wneir o ddelweddau a graffeg i helpu i ddehongli gwybodaeth yn gymharol gyfyngedig;
- gall cyfuno gormod o ddata, mewn rhai achosion (e.e. perfformiad adrannau damweiniau ac achosion brys), ei gwneud yn anos i aelodau'r Bwrdd graffu arno.

**58.** Yn ogystal ag adolygu gwybodaeth reoli, mae fy ngwaith hefyd wedi canolbwyntio ar b'un a yw'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a gyflwynir. Drwy waith arsylwi, cafwyd tystiolaeth gymharol dda o graffu a herio gan aelodau'r Bwrdd Iechyd a'i Bwyllgor Archwilio a'i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Ceir hefyd dystiolaeth i ddangos bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio ochr yn

ochr â ffynonellau eraill o sicrwydd, fel sesiynau crwydro i fonitro diogelwch cleifion ac ymweliadau arsylwi, i gadarnhau (neu herio) y modd y caiff gwybodaeth a materion yn ymwneud â pherfformiad eu dehongli a'u deall.

**59.** Roedd creu llyfr data perfformiad yn ystod y flwyddyn yn dipyn o gyflawniad ac mae ymrwymiad i barhau i ddatblygu a gwella'r llyfr data perfformiad wrth i anghenion gwybodaeth newid. Mae llyfr data ansawdd penodol wrthi'n cael ei ddatblygu hefyd. Caiff gwybodaeth ei chynhyrchu a'i rheoli mewn modd disgybledig, er y gall oedi o ran prosesau codio clinigol a chael data o rai systemau bwydo, megis y cofnod staff electronig, effeithio ar amseroldeb rhai adroddiadau.

**60.** Yr her yn y dyfodol, yn sgil yr ymchwiliad i Ymddiriedolaeth GIG Canol Swydd Stafford ac Ymchwiliad Powell, fydd nodi sut y gall y Bwrdd Iechyd ddwyn ynghyd (triongli) wybodaeth allweddol er mwyn sicrhau bod ganddo well system rhybudd cynnar i wybod pryd y gall ansawdd gofal fod mewn perygl. Er enghraifft, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gall ddefnyddio ei ddata i wneud y canlynol:

- nodi'r cysylltiadau rhwng dangosyddion allweddol sydd gyda'i gilydd yn darparu sbardun ansawdd e.e. lefelau staffio, salwch, defnydd gwelyau a chanlyniadau cleifion;
- ei gwneud yn bosibl i ddadansoddi anghysondebau ymddangosiadol at ddibenion ymchwiliol;
- ei gwneud yn bosibl i brofiad y claf gael ei gyfuno â phrosesau cofnodi cwynion a digwyddiadau.

**61.** Bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd asesu a yw wedi neilltuo digon o adnoddau i feysydd pwysig rheoli gwybodaeth a pherfformiad er mwyn sicrhau y gellir gwneud popeth sydd angen ei wneud yn y dyfodol.

## Er bod trefniadau ar waith i ategu ansawdd data, cydymffurfio â chyfrinachedd data a darparu ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, mae angen datblygu'r ffocws strategol ar wybodaeth a'r modd y caiff ei llywodraethu ymhellach

**62.** Mae fy nhîm archwilio wedi cynnal archwiliad lefel uchel o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod y data a gynhyrchir ganddo yn ddibynadwy ac yn gywir. Er nad yw'r gwaith hwn wedi ceisio dilysu ansawdd setiau data neu ddangosyddion perfformiad penodol y GIG, adolygodd ddata demograffig cleifion sylfaenol er mwyn canfod faint o wybodaeth ddyblyg sydd ar y systemau Gweinyddu Cleifion (PAS) a Radioleg (RADIS) a faint o wybodaeth sydd ar goll.

**63.** Mae fy ngwaith wedi canfod bod ymrwymiad corfforaethol i ansawdd data. Mae trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd data ac mae'r polisi a phrosesau ansawdd data yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, dengys fy ngwaith dadansoddi data ddarlun cymysg o ran cywirdeb ansawdd data, sy'n nodi graddau gwahanol o effeithiolrwydd wrth sicrhau bod data yn gyson gywir ac etifeddiaeth nifer o systemau gwybodaeth gwahanol. Mae hefyd angen atgyfnerthu prosesau sicrhau ansawdd data. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- Mae trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu a rheoli ansawdd data, ond gellid atgyfnerthu trefniadau sicrwydd ymhellach. Nid yw'r Polisi Ansawdd Data yn nodi sut y bydd y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg (ISGB) yn cydgysylltu ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd data i bwyllgor ffurfiol o'r Bwrdd. Er y cyflwynir adroddiadau gweithredol ar ansawdd data yn rheolaidd i'r ISGB, nid oes unrhyw adroddiad blynyddol ar sicrhau ansawdd data. Felly, er bod fframwaith llywodraethu cyffredinol sydd wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer ansawdd data, câi'r trefniadau eu hatgyfnerthu gan adroddiadau mwy ffurfiol ar lefel bwrdd ar sicrhau ansawdd data.
- Mae'r polisi a phrosesau ansawdd data yn gadarn ar y cyfan. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau a gweithdrefnau priodol i gyrraedd safonau ansawdd data cenedlaethol ac mae'n darparu ystod briodol o hyfforddiant, addysg a gweithgareddau ymwybyddiaeth sy'n ymwneud ag ansawdd data. Mae'r polisi ansawdd data yn nodi gofynion allweddol, ond nid yw'n cwmpasu'n glir wybodaeth am ofal sylfaenol, y mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu fwyfwy arni.
- Dengys gwaith dadansoddi data ddarlun cymysg o ran cywirdeb ansawdd data. Er i berfformiad y Bwrdd Iechyd gyflawni targedau dilysu data cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae fy nadansoddiad o ddata demograffig systemau PAS a RADIS yn dangos bod angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â chofnodion dyblyg a chofnodion lle nad oes unrhyw ddynodwr claf.

**64.** Yn ogystal â gwaith ar ansawdd data, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion ar waith, a hefyd gadernid prosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes y Bwrdd Iechyd pe byddai'r system TG yn methu.

**65.** O ran gweithredu canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion, mae trefniadau rheoli cadarn ar waith. Mae Gwarcheidwad Caldicott yn darparu arweinyddiaeth gref a cheir prosesau goruchwylio a rhoi sicrwydd effeithiol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â data cleifion ar waith ac mae'r Bwrdd Iechyd yn deall ei gyfrifoldebau o ran sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth ac mae gwybodaeth risg uchel am gleifion a staff wedi'i nodi.

**66.** Gallai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ymhellach drwy feincnodi ei gynnydd a sicrhau bod trefniadau/cyfrifoldebau 'ffurfiol' ar gael i ategu gwaith cynllunio olyniaeth pe bai unrhyw newidiadau i Warcheidwad Caldicott. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymwybodol o'r angen i wella hyfforddiant staff (yn enwedig hyfforddiant swydd-benodol a hyfforddiant diweddaru) a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi a monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn egwyddorion Caldicott. Mae meysydd eraill i'w datblygu ymhellach yn cynnwys asesu gwybodaeth arall sy'n ddarostyngedig i egwyddorion Caldicott a sicrhau y caiff cleifion eu hysbysu am y defnydd a wneir o'u gwybodaeth a phwy all ei gweld.

**67.** Nododd fy ngwaith ar brosesau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb sy'n gysylltiedig â systemau TG clinigol, er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud paratoadau da yn gyffredinol o ran ei drefniadau ar gyfer TGCh, nad yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio parhad busnes yn gyflawn ym mhob adran glinigol a bod angen cadarnhau'r trefniadau â chyflenwyr systemau trydydd parti. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r materion hyn ac mae wrthi'n cymryd camau gwella.

**68.** Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- Mae angen gwella rhywfaint ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ar draws y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, gallai rolau'r Swyddog Cynllunio at Argyfwng a'r Grŵp Cynllunio at Argyfwng a ddatblygwyd yn ddiweddar helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Mae gan y tîm gweithrediadau TGCh drefniadau da ar gyfer ymdrin â senarios Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes ac mae'n diweddarau ei gynlluniau; fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun corfforaethol ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb, mae cynlluniau adrannau clinigol yn amrywio o ran ansawdd a manylder ac mae angen adolygu rhai trefniadau ar gyfer systemau clinigol a gyflenwir gan drydydd partïon
- Mae'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cadernid y seilwaith TGCh yn gadarn a cheir rheolaethau addas dros y copi wrth gefn o wybodaeth bwysicaf y Bwrdd Iechyd a gynhelir yn lleol.
- Caiff y trefniadau ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb sy'n cwmpasu'r prif systemau gweinyddu cleifion eu profi'n rheolaidd, ond ni chaiff cynlluniau Parhad Busnes adrannol ar gyfer systemau clinigol (Radioleg, Patholeg a Fferylliaeth) eu profi'n rheolaidd.

**69.** Wrth wneud y gwaith uchod ac ystyried prosesau llywodraethu gwybodaeth fel rhan o'm gwaith ar asesiad strwythuredig eleni, deuthum i'r casgliad bod rôl a strwythur y Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu Gwybodeg (ISGB) yn creu tensiynau rhwng ei ffocws gweithredol a strategol, ac nad yw'r trefniadau adrodd cyfredol yn rhoi sicrwydd cadarn i'r Bwrdd. At hynny, mae'r strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (RhGTh) ar ffurf ddrafft o hyd; ac mae risgiau strategol yn gysylltiedig â phwysau ariannol i fuddsoddi mewn seilwaith newydd a chynnal seilwaith presennol. Er bod gan y Bwrdd Iechyd dîm gweithredol RhGTh cryf a 'hyrwyddwr' ymroddedig nad yw'n swyddog, ni roddir digon o bwys ar wybodaeth o safbwynt strategol ac mae angen canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi ymagwedd ragweithiol wedi'i rheoli'n dda at ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ond hefyd gyfleoedd i wneud defnydd gwell o adnoddau mewn meysydd penodol

### Mae gweithgarwch cynllunio'r gweithlu yn ystod y flwyddyn wedi bod yn bragmataidd, ond mae datblygu cynlluniau gweithlu hirdymor sy'n ariannol gynaliadwy i helpu i drawsnewid gwasanaethau yn parhau'n her fawr

**70.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull pragmataidd o gynllunio'r gweithlu yn 2012 ac mae'r fframwaith cynllunio wedi'i ddatblygu i annog perchenogaeth weithredol. Mae adnoddau, y gweithlu a chyllid yn rhan annatod o gynlluniau blynyddol lleol ac maent yn bwydo i mewn i Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r cynlluniau blynyddol lleol yn cynnwys effaith newidiadau i wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac yn adlewyrchu'r ystyriaeth a roddwyd i adnoddau, y gweithlu a chyllid, nid yw'r rhain wedi'u hintegreiddio'n briodol eto. Er enghraifft, nid oedd y cynllun gweithlu blynyddol ar gyfer eleni yn ariannol gytbwys a cheir tensiynau rhwng sicrhau arbedion ariannol a buddsoddi at y dyfodol wrth i ofal symud i'r gymuned.

**71.** Ni fydd effeithiau'r newidiadau y cynigir eu gwneud i wasanaethau fel rhan o gynllun rhanbarthol De Cymru ar y gweithlu yn gwbl hysbys cyn Ebrill 2013 ac mae hyn yn golygu ei bod yn anos cynllunio'r gweithlu yn y tymor hwy. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llunio cynllun pum mlynedd yn 2012-13. Mae materion yn ymwneud â'r gweithlu sy'n codi o gynlluniau 'Newid er Gwell' lleol y Bwrdd Iechyd yn dechrau dod yn gliriach ond mae angen meithrin gwell dealltwriaeth o ofynion adnoddau a hyfforddiant er mwyn helpu i symud gwasanaethau o leoliadau a darpariaeth acíwt i rai cymunedol.

### Ceir llawer o gryfderau mewn prosesau rheoli'r gweithlu, ond mae mynd i'r afael â salwch a sicrhau bod rheolwyr gweithredol yn barod i arwain newidiadau cymhleth i'r gweithlu a'u bod yn cael eu cynorthwyo i wneud hynny yn flaenoriaethau

**72.** Mae newidiadau i'r gweithlu i ategu newidiadau i wasanaethau yn ystod y flwyddyn wedi'u rheoli'n dda ar y cyfan ac mae gwaith ailgynllunio prosesau yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cynhyrchiant y gweithlu. At hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthuso pob swydd wag yn feirniadol cyn ail-lenwi swyddi.

**73.** Mae hunanwasanaeth y Cofnod Gwasanaeth Cyflogeion yn cael ei gyflwyno mewn ffordd bwyllog, gyda 'phrofion' yn cael eu cynnal i liniaru unrhyw risgiau i systemau a rheolaethau cyflogres. Mae arfarniadau yn cael eu defnyddio fwyfwy fel dulliau o gefnogi datblygiad staff a datblygiad sefydliadol.

**74.** Ceir rhai meysydd allweddol y mae angen eu datblygu ymhellach. Mae angen gwneud mwy i reoli absenoldeb oherwydd salwch, a byddaf yn cynnwys adolygiad o brosesau rheoli salwch fel rhan o'm gwaith archwilio lleol ar ddechrau 2013. Fodd bynnag, mae menter 'lles drwy waith' a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gam arloesol a chadarnhaol i gadw staff yn heini, yn y gwaith. Yn yr un modd, nid yw parodrwydd rheolwyr i ddatblygu, gweithredu a rheoli'r cynlluniau newid y gweithlu cymhleth sydd eu hangen i drawsnewid gwasanaethau wedi'i brofi'n llawn eto. Mae'r adran Adnoddau Dynol fel 'cyfrwng galluogi allweddol' yn parhau i chwarae rôl bwysig iawn o ran hwyluso sgiliau trawsnewid ymhlith rheolwyr gweithredol.

### Mae ymrwymiad cadarn ac ymagwedd ragweithiol, wedi'i rheoli'n dda, at ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn amlwg

**75.** Fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae ymrwymiad sefydliadol cadarn i barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Rhoddir cryn dipyn o sylw i'r mater ar lefel weithredol yn ogystal â chryn dipyn o amser ac egni, a cheir timau cyfathrebu a phrofiad cleifion effeithiol sy'n gweithio i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a phartneriaid ac mae ganddo gydberthynas waith adeiladol â'r Cyngor Iechyd Cymuned.

**76.** Mae'r broses o newid gwasanaethau 'ar frys' wedi'i chyflawni'n effeithiol ac yn gyflym ar y cyfan, yn enwedig y newid brys i dderbyniadau meddygol brys yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot. At hynny, mabwysiadwyd dull cydgysylltiedig, a ystyriwyd yn ofalus, o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch newidiadau mawr i wasanaethau. Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi dysgu o weithgarwch ymgysylltu blaenorol, a chydnabyddir bod cyfranogiad clingwyr yn hanfodol bwysig. Defnyddiwyd cymorth 'arbenigol' i adolygu cynlluniau ymgysylltu a helpu i gasglu a dadansoddi barn y cyhoedd a rhanddeiliaid drwy weithgarwch ymgysylltu yn ystod y flwyddyn.

**77.** Mae hyn yn rhoi llwyfan da, ond gwaith ymgynghori ffurfiol ynghylch opsiynau, costau ariannol a newidiadau dilynol i'r gweithlu yw'r brif her sy'n dal i wynebu'r broses ymgynghori ar gynllun rhanbarthol De Cymru a'r cynlluniau 'Newid er Gwell' lleol yn 2013.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cryn ymdrech i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni gwelliannau ar draws gwasanaethau theatr er nad yw hyn wedi arwain at welliannau sylweddol mewn perfformiad eto

**78.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion a gododd o waith archwilio blaenorol ar ddefnyddio theatrau llawdriniaethau. Nodais fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cryn ymdrech, yn gywir ddigon, i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni gwelliannau ar draws gwasanaethau theatr. Fodd bynnag, mae'r effeithiau ar berfformiad wedi bod yn siomedig hyd yma a dylai'r Bwrdd Iechyd roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â rhai rhwystrau allweddol sy'n dal i fodoli. Nodir y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod:

- Mae perfformiad theatrau llawdriniaethau, yn gywir ddigon, wedi bod yn faes blaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd a cheir gwell strwythur a fframwaith bellach ar gyfer llywio'r gwaith o wella gwasanaethau. Mae rhaglen waith newydd y Bwrdd Theatrau yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y cyfeiriad teithio er bod lle i nodi'r amcanion yn gliriach. Ceir enghreifftiau o fentrau yn ymwneud â theatrau sydd wedi sicrhau manteision uniongyrchol er bod cyflymdra'r newid yn gyffredinol wedi peri rhwystredigaeth i rai aelodau o staff.
- Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, nid yw perfformiad theatrau llawdriniaethau wedi gwella cymaint ag y byddem wedi disgwyl. Prin fu'r gwelliant mewn effeithlonrwydd o fewn prif theatrau a chafwyd perfformiad arbennig o wael o fewn theatrau llawdriniaethau dydd. Mae cyfranogiad yr Uned Cyflawni a Chefnogi yn dechrau cael effeithiau cadarnhaol y mae angen eu lledaenu nawr i theatrau eraill.
- Bydd yn anodd iawn sicrhau gwelliannau cynaliadwy yn y dyfodol os na roddir sylw i nifer o faterion allweddol fel mater o flaenoriaeth. Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â chydweithio rhwng yr adran anestheteg a theatrau yn rhwystr allweddol, ers i theatrau a'r adran anestheteg gael eu rhannu'n gyfarwyddiaethau ar wahân 18 mis yn ôl. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniant hwn. Er gwaethaf rhai gwelliannau, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i wella prosesau cyfathrebu yn gyffredinol ac ennyn cefnogaeth a chyfranogiad y staff o ran yr hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio ei gyflawni.
- Nid yw'r gwasanaeth asesu cyn llawdriniaeth wedi gwneud rhyw lawer o gynnydd ers ein hadolygiad blaenorol ac mae'n dal i fod yn faes allweddol sy'n peri problem. Ceir hefyd broblemau'n ymwneud â diogelwch, ansawdd ac effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â hambyrddau theatr gwlyb neu wedi'u difrodi. Mae lle i wella prosesau monitro a chofnodi perfformiad ac mae angen meithrin gwell dealltwriaeth o allu ac adnoddau a'u rheoli'n well; bydd y broses o weithredu un system gwybodaeth am theatrau, sydd ar fin digwydd, yn gyfle mawr i fynd i'r afael â'r mater hwn. Nodaf hefyd fod cynlluniau gwella wedi'u datblygu er mwyn gweithredu argymhellion sy'n deillio o waith archwilio allanol a gwaith asiantaethau gwella eraill.

**79.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd atebion llwybr cyfan cynaliadwy ac mae wedi integreiddio camau gweithredu'r Bwrdd Datblygu Theatrau yn ddiweddar yn y gwaith ehangach ar lwybrau dewisol o dan y ‘Rhaglen Cyflawni Gwelliant’ ar gyfer gwella llwybrau dewisol. Mae hwn yn ddull rhesymegol o weithredu ond mae'n debygol o gymryd peth amser i gyflawni canlyniadau arwyddocaol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cadw trosolwg o unrhyw gynnydd pellach a byddaf yn cynnwys rhagor o waith dilynol ar gynnydd yn fy nghynllun archwilio ar gyfer 2013-14.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Mai 2012 |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Gorffennaf 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Awst 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno | Medi 2012 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Hydref 2012 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Hydref 2012 i reolwyr |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad strwythuredig 2011: adolygiad thematig o ansawdd data | Tachwedd 2012 |
| Adfer ar ôl Trychineb, Parhad Busnes | Tachwedd 2012 |
| Adolygiad dilynol o Theatrau Llawdriniaethau | Tachwedd 2012 |
| Asesiad Strwythuredig 2012: Cyflwyniad/Sesiwn datblygu'r Bwrdd | Tachwedd 2012/Rhagfyr 2012 |
| **Gwaith arall** | |
| Gweithdy llywodraethu | Pwyllgor Archwilio Chwefror 2012 |
| Dadansoddiad dilynol o feincnodau lefelau staffio wardiau | Mawrth 2012 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Gwaith dilynol ar reoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu | Ionawr 2013 |
| Adolygiad rheoli salwch | Mawrth 2013 |
| Rhagnodi ym maes gofal sylfaenol | Mawrth 2013 |
| Adolygiad orthopedig | Mehefin 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £434,863 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Mae'r gwaith archwilio gwerth £11,368 a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru wedi'i gynnwys yn y ffi a nodir uchod.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk